

Ysgol Uwchradd Tywyn



Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) Relationships and Sexuality Education (RSE) Policy 2023-2026

Ysgol Uwchradd Tywyn

Dyddiad Cymeradwyo / Date of adoption: 28/11/2023

Dyddiad Adolygu / Review date::

Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: _____

Dyddiad: _____

Mae'r polisi hon wedi ei chreu yn unol â dogfennau Cwricwlwm i Gymru a'r Cod ACRh, 2022, Llywodraeth Cymru.

This policy has been created in line with Welsh Government, Curriculum for Wales and the RSE Code 2022 documents.

Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Enw'r aelod staff gyda chyfrifoldeb am bolisi ACRh: Siony Rudd / Bethan Williams
Enw'r arweinydd ACRh yr ysgol: Siony Rudd / Bethan Williams
Enw'r Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am ACRh:
Dyddiad mabwysiadu'r polisi ACRh gan y Corff Llywodraethol:
Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu pob tair blynedd Dyddiad adolygiad nesaf:

Datganiad gan y Corff Llywodraethol

Mae'r corff llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn wedi mabwysiadu'r polisi hwn ar (**Nodwch y dyddiad**). Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu mewn tair blynedd er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda chanllawiau a rheoliadau Llywodraeth Cymru.

Wrth fabwysiadu'r polisi hwn, mae corff llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn yn cydnabod y cyfrifoldeb i sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu yn effeithiol, bod ACRh gydag adnoddau digonol ac yn cael ei gyflwyno yn draws gwricwlaidd mewn dull ysgol gyfan a bod yr ysgol yn cyflawni ei rwymedigaeth gyfreithiol.

Datganiad Cyflwyniad

Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol wrth eu cefnogi i gyflawni'r pedwar diben fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan. Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd chyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch.

Mae'r Cod ACRh, Llywodraeth Cymru 2022 yn cynnwys y gofynion mandadol. Mae'r addysgu a dysgu o fewn ein rhaglen ACRh ysgol gyfan yn cwmpasu'r elfennau mandadol a amlinellir o fewn y Cod

Mae'r ysgol felly wedi cynllunio a datblygu rhaglen addysgu a dysgu ACRh ysgol gyfan gynhwysfawr, cynhwysol, addas i ddatblygiad sydd yn cydymffurfio gyda'r Cod. Mae'r polisi hwn yn manylu ein dull ysgol gyfan ACRh.

Mae ein hysgol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd i ddeall sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn siapiau ein bywyd a bywydau eraill. Bydd ein dysgwyr yn cael eu harfogi a'u grymuso i ofyn am gefnogaeth ar faterion sy'n gysylltiedig ag ACRh ac i eirioli ar ran eu hunain ac eraill.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ACRh wedi ei osod yng ngwerthoedd, hawliau a fframwaith moesol yr ysgol e.e. wrth ddangos parch i'r holl ddysgwyr, staff a'r gymuned ehangach, wrth ddathlu gwahaniaethau, adeiladu perthnasoedd iach a cynhwysol o amrywiaeth rhywiol.

Mae'r polisi wedi ei ddylanwadu gan ganllawiau cyfredol:

Llywodraeth Cymru

- [Canllawiau a'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb](#)
- [Curriculum for Wales Guidance](#)
- [Cadw Dysgwyr y Ddiogel](#)

Llywodraeth y DU

- [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

Mae'r polisi hwn wedi ei greu wrth ystyried polisiau eraill gan gynnwys Cyfrinachedd, Diogelu, Amddiffyn Plant a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Hawl i eithrio

Mae ACRh yn ofyniad mandadol o fewn y Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr. Mae'r Cod yn nodi nad oes hawl i ddysgwyr gael eu heithrio o unrhyw ran o ACRh. Pa fodd bynnag, fel mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno'n raddol, bydd rhai dysgwyr yn medru cael eu heithrio o ACRh tra bo hyn yn digwydd.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Cwricwlwm i Gymru ynghyd â'r Cod a Chanllawiau ACRh o fis Medi:

- 2022: ACRh yn orfodol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7.
- 2023: ACRh yn orfodol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7 ac 8.
- 2024: ACRh yn orfodol gyfer dysgwyr Blwyddyn 7, 8 a 9.
- 2025: ACRh yn orfodol i ddysgwyr Blwyddyn 7, 8, 9 a 10.
- 2026: ACRh yn orfodol i bob dysgwr.

Dylunio cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm ACRh yn cael ei gyflwyno drwy themâu traws cwricwlaidd ac wedi ei gysylltu o fewn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad fel yn briodol. Mae hyn yn caniatáu bod dysgwyr yn gwneud cysylltiad gyda beth a ddysgir yn ACRh a'r cwricwlwm ehangach, deall persbectif a dylanwadau hanesyddol, diwylliannol, daearyddol, corfforol, gwleidyddol, cymdeithasol a thechnolegol.

Mae cynnwys mandadol y Cod ACRh wedi ei osod o fewn tri llinyn dysgu bras cysylltiol:

1. Cydberthnasau a hunaniaeth - Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar:

- yr amrywiaeth o gydberthnasau y mae pobl yn eu datblygu drwy gydol eu bywydau
- sut y gall ein cydberthnasau a'n rhywioldeb lywio ein hunaniaeth
- pwysigrwydd hawliau dynol wrth sicrhau cydberthnasau iach, diogel a boddhaus mewn cymdeithas gynhwysol.

2. Iechyd rhywiol a lles - mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar:

- dysgu am y ffordd y mae pethau byw yn tyfu, yn atgennedlu ac yn mynd drwy gylchred bywyd
- datblygu dealltwriaeth o'r corff dynol, gan gynnwys teimladau pobl am eu cyrff a'r ffordd y gall y teimladau hyn gael eu cynrychioli
- y materion iechyd sy'n gysylltiedig â chydberthnasau a rhywioldeb
- dealltwriaeth o'r ffordd y mae rhywioldeb ac iechyd rhywiol yn effeithio ar ein lles.

3. Grymuso, diogelwch a pharch - mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar:

- hawliau dysgwyr i ddiogelwch ac amddiffyniad a rhyddid rhag niwed a gwahaniaethu
- sut a ble i gael gwybodaeth, help a chymorth
- sut i gefnogi ac eirioli dros hawliau, triniaeth deg a pharch i bawb.

Y themâu sydd wedi eu cysylltu o fewn y tri llinyn dysgu yw:

- **Cydberthnasau** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut i ffurfio a chynnal gwahanol fathau o gydberthnasau diogel, cydsyniol ac iach sy'n gwireddu eu dyheadau.
- **Hawliau a chydaddoldeb** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r ffordd y mae hawliau sy'n ymwneud â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau yn cyfrannu at ryddid, tegwch, urddas, lles a diogelwch pawb.
- **Rhyw, rhywedd a rhywioldeb** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae elfennau o hunaniaeth a phwy yw pobl fel unigolion, gan gynnwys amrywiaeth LHDT+, eu rhyw, eu rhywedd a'u rhywioldeb, yn datblygu ac yn newid dros amser.
- **Cyrff a delwedd gorfforol** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r corff dynol a'r ffordd y mae'n newid dros amser, gan gynnwys y ffordd y mae pobl yn teimlo am eu cyrff, a'u galluoedd a'u swyddogaethau rhywiol ac atgenhedlol.
- **Iechyd a lles rhywiol** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o rôl gadarnhaol rhywioldeb ym mywyd dynol a meithrin ymwybyddiaeth raddol o iechyd a lles rhywiol personol.
- **Trais, diogelwch a chymorth** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o natur gymdeithasol, emosiynol, corfforol a chyfreithiol o drais sy'n seiliedig ar rywedd a thrais rhywiol a'i effaith, gan gynnwys trais ar-lein.

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru 2020, Llywodraeth Cymru

Mae pob llinyn addysgu a dysgu wedi eu rhannu'n dri chyfnod datblygu bras fel a ganlyn:

- Cyfnod 1: o 3 oed
- Cyfnod 2: o 7 oed
- Cyfnod 3: o 11 oed

Bydd arweinydd ACRh ein hysgol yn cyfathrebu gyda holl ysgolion cynradd y dalgylch er mwyn sicrhau bod y datblygiadau yn addas i ddatblygiad ein dysgwyr ac yn cynyddu o Gyfnod dau a Chyfnod tri.

Mae'r cynllunio, addysgu, arfarnu a monitro rhaglen ACRh yr ysgol yn cael ei ymgymryd gan athrawon ac arweinydd ACRh ein hysgol.

Er mwyn sicrhau bod ein cwricwlwm ACRh ysgol gyfan yn ddatblygiadol addas ar gyfer ein dysgwyr yr ydym yn ystyried amrediad o ffactorau gan gynnwys:

- oed, gwybodaeth ac aeddfedrwydd y dysgwyr
- anghenion dysgu ychwanegol y dysgwyr
- anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a gwybyddol y dysgwyr
- ystyried gall anghenion dysgwyr o oedran tebyg amrywio

Ymgynghori gyda'r dysgwyr

Er mwyn cefnogi'r dysgwyr i wireddu'r pedwar diben o fewn y Cwricwlwm i Gymru, mae llais y dysgwr yn greiddiol i ddatblygu ein cwricwlwm ACRh

Er mwyn sicrhau bod ein cwricwlwm ACRh yn cyrraedd anghenion y dysgwyr yr ydym yn darparu cyfleoedd iddynt roi eu barn ar bolisi ACRh yr ysgol, rhaglen waith a chynnwys y gwersi wrth gynnal â gweithgareddau ymgynghori gyda dysgwyr bob blwyddyn bob dwy flynedd.

Yr ydym yn ymgynghori gyda'r dysgwyr yn barhaol ar ddiwedd gwersi, gweithgareddau a rhaglen er mwyn sicrhau addasrwydd ein darpariaeth a bod ein hadnoddau â'r asiantaethau allanol yn berthnasol, yn ddatblygiadol addas, yn

gynhwysol ac yn sensitif i anghenion ein dysgwyr. Byddwn yn gweithredu ar unrhyw argymhellion ac yn diwygio yn ôl y gofyn.

Rhaglen Waith ACRh Ysgol Gyfan

Mae ein cynllun gwaith ACRh ysgol gyfan ar gael gan yr ysgol. Mae'r ddogfen hon yn manylu sut yr ydym yn rheoli, trefnu ac ymgorffori ACRh ar draws ein cwricwlwm ysgol gyfan yn unol â Chamau Cynnydd y Cwricwlwm i Gymru a'r Cyfnod o fewn y Cod ACRh. Mae'r adnoddau a ddefnyddiwyd wedi eu dewis yn ôl eu haddasrwydd ac adolygir eu heffeithiolrwydd yn dilyn eu defnydd gan athrawon a'r arweinydd ACRh yr ysgol.

Amgylchedd dysgu diogel

Bydd yr ysgol yn sicrhau amgylchedd addysgol diogel ar gyfer athrawon, staff a dysgwyr drwy sefydlu a chytuno ar gytundebau/rheolau dosbarth yr ysgol. Mae'r cytundebau/rheolau dosbarth wedi eu nodi o fewn y ddogfen rhaglen waith ysgol gyfan.

Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o faterion cyfrinachedd ac ni fydd unrhyw ddatgelu diogelu yn cael ei gadw ac yn cael ei rannu yn unol â phrosesau diogelu'r ysgol.

Gwasanaethau cymorth iechyd a lles.

O fewn ein darpariaeth ACRh bydd y dysgwyr yn derbyn gwybodaeth am wasanaethau cefnogi iechyd, iechyd rhywiol a lles rhywiol er enghraifft cyngor cyfrinachol, cwnsela a sut i gael mynediad at driniaeth petai angen.

Ateb cwestiynau'r dysgwyr

Bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau cyfrinachol/dienw drwy ddefnyddio'r blwch cwestiynau dienw. Rydym yn ystyried cwestiynau fel arwydd gadarnhaol bod disgyblion yn ymgysylltu â'r hyn sy'n cael ei addysgu ac yn teimlo y gallant fynegi chwilfrydedd naturiol amdanynt eu hunain, eu cyrff a'u perthnasoedd ag eraill. Bydd y cwestiynau yn cael eu hateb yn sensitif ac mewn modd addas i ddatblygiad y dysgwyr.

Ni fydd disgwyl i aelodau o staff ateb bob cwestiwn os nad ydynt yn teimlo eu bod yn addas. Ni fydd disgwyl iddynt ateb unrhyw gwestiwn personol am eu hunain ac ni fyddant yn gofyn cwestiwn uniongyrchol personol a all wneud i'r naill a'r llall deimlo'n fregus.

Gweithio gydag asiantaethau allanol

Er mwyn ehangu a chyfoethogi ein darpariaeth ACRh, yn achlysurol bydd yr addysgu yn cael ei gefnogi gan asiantaethau allanol e.e. Stonewall, nyrs ysgol, gweithwyr iechyd proffesiynol, NSPCC, Hafan Cymru, Barnardos, yr Heddlu ayyb.

Bydd yr asiantaethau yn cael eu dewis yn ofalus a bydd arweinydd ACRh yn gwirio:

- Eu bod yn gymwys i siarad gyda phobl ifanc.
- Eu bod yn gweithio/wedi cofrestru gyda sefydliad/elusen gyfrifol.
- Bod eu cyfraniad yn cyd-fynd â nodau ac amcanion y cwricwlwm.
- Dilysrwydd eu statws Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
- Pob adnodd a chyflwyniad a ddefnyddir ganddynt.
- Eu bod yn ymwybodol o unrhyw anghenion ychwanegol y dysgwyr
- Bod aelod o staff yr ysgol yn bresennol drwy gydol y wers/gweithgaredd/cyflwyniad.

Datblygiad proffesiynol y staff

Mae ein hysgol yn adnabod bod Dysgu Proffesiynol yn allweddol ar gyfer gofynion ACRh o safon uchel. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i hwyluso bod pob athrawon a staff cysylltiol yn derbyn hyfforddiant addas ACRh er mwyn sicrhau bod ein rhaglen ACRh ysgol gyfan yn effeithiol, yn cynnwys elfennau traws cwricwlaidd, yn ddatblygiadol briodol ac yn bodloni anghenion ein disgyblion.

Bydd arweinydd ACRh yr ysgol yn cefnogi athrawon a staff cysylltiol i gael mynediad at ddysgu proffesiynol er mwyn datblygu hyder, gwybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer ACRh.

Partneriaeth gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod rhieni/gofalwyr yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen ACRh. Mae croeso i rieni/gofalwyr wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol os dymunir, i weld neu i drafod y deunyddiau a'r adnoddau a ddefnyddir o fewn gwersi ACRh.

Relationships and Sexuality Education (RSE) Policy

Name of staff member responsible for the RSE policy: Siony Rudd / Bethan Williams
Name of the school's RSE Lead: Siony Rudd / Bethan Williams
Name of Governor with responsibility for RSE:
Date of adoption of the RSE policy by the Governing Body:
This policy will be reviewed every three years Date of next review:

Statement by the Governing Body

The governing body of Ysgol Uwchradd Tywyn adopted this policy on (Insert date). This policy will be reviewed by the governing body in three years to ensure the policy is in alignment with the latest Welsh Government guidance and regulations.

By adopting this policy, the governing body of Ysgol Uwchradd Tywyn recognises its responsibility for ensuring the policy is implemented effectively, that RSE is adequately resourced, staffed and delivered using a cross-curricular approach and ensures that the school fulfils its legal obligations.

Introductory statement

RSE has a positive and empowering role in learners' education and plays a vital role in supporting learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect which is the foundation of RSE. These relationships are critical to the development of emotional well-being, resilience and empathy. An understanding of sexuality with an emphasis on rights, health, equality and equity empowers learners to understand themselves, take responsibility for their own decisions and behaviours, and form relationships that are fully inclusive, reflecting diversity and promoting respect.

The Welsh Government RSE Code 2022 contains the mandatory requirements. The teaching and learning within our whole school RSE programme encompass the mandatory elements outlined within the Code.

Our school has therefore planned and developed a comprehensive, inclusive, developmentally appropriate whole school teaching and learning programme for RSE which conforms with the Code. This policy details our whole school approach to RSE.

Our RSE will support learners to develop the knowledge, skills and values to understand how relationships and sexuality shape their own lives and the lives of others. Learners will be equipped and empowered to seek support on issues relating to RSE and to advocate for themselves and others.

The school will ensure that RSE is embedded in the school's values, rights and moral framework e.g. by showing respect for all learners, staff and the wider community, by celebrating differences, building healthy relationships and inclusion of sexual diversity.

This policy is in alignment with the latest guidance:

Welsh Government:

- [Curriculum for Wales Guidance](#)
- [The Curriculum for Wales – RSE Code, 2022](#)
- [Keeping Learners Safe](#)

UK Government

- [Equality Act 2010](#)

This policy is created in conjunction with other policies, including Confidentiality, Safeguarding, Child Protection and the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015.

Right to Withdraw

RSE is a mandatory requirement in the New Curriculum for Wales for all learners. It is specified within the RSE Code that there is no right to withdraw learners from any part of RSE. However, as the new curriculum is phased in, some learners may still be withdrawn from RSE pending the roll out of the new curriculum.

To ensure we are in alignment with the mandatory status of RSE for our learners, from September:

- 2022: RSE will be mandatory for Year 7
- 2023: RSE will be mandatory for Year 7 and 8 learners
- 2024: RSE will be mandatory for Year 7, 8 and 9 learners
- 2025: RSE will be mandatory for Year 7, 8, 9 and 10 learners
- 2026: RSE will be mandatory for all learners.

Curriculum Design

Our RSE curriculum is taught through cross-curricular themes and it is interlinked within all six Areas of Learning and Experience as appropriate. This allows learners to make connections between their learning in RSE and the wider curriculum, understanding historical, cultural, geographic, physical, political, social and technological perspectives and influences on RSE issues.

The mandatory content of the RSE Code is set within three broad and interlinked learning strands, namely:

1. Relationships and identity - this strand focuses on:

- the range of relationships that human beings have throughout their lives
- how identity can be shaped by our relationships and sexuality
- the importance of human rights in securing healthy, safe and fulfilling relationships in an inclusive society.

2. Sexual health and well-being - this strand focuses on:

- learning about how living things grow, reproduce and have a life cycle
- developing an understanding of the human body, including people's feelings about their bodies and how these can be represented
- the health issues related to relationships and sexuality
- an understanding of how sexuality and sexual health affects our well-being.

3. Empowerment, safety and respect - this strand focuses on:

- learners' rights to safety and protection and freedom from harm and discrimination
- how and where to seek information, help and support
- how to support and advocate for the rights, fair treatment and respect of all.

The themes which are interlinked into the three learning strands are:

- **Relationships** - Learners will develop an understanding of how different types of safe, consensual, healthy and fulfilling relationships can be formed and maintained.
- **Rights and equity** - Learners will develop an understanding of how rights related to sex, gender, sexuality and relationships contribute to the freedom, equity, dignity, well-being and safety of all people.

- **Sex, gender and sexuality** - Learners will develop an understanding of how aspects of identity and individuality, including LGBTQ+ diversity, sex, gender and sexuality, develop and change over time.
- **Bodies and body image** - Learners will develop an understanding of the human body and how it changes over time, including people's feelings about their bodies, and their sexual and reproductive capacities and functions.
- **Sexual health and well-being** - Learners will develop an understanding of the positive role of sexuality in human life and a gradual awareness of personal sexual health and well-being.
- **Violence, safety and support** - Learners will develop an understanding of the social, emotional, physical and legal nature and impact of gender-based and sexual violence, including online.

Welsh Government, Curriculum for Wales Guidance 2020

The learning strands of teaching and learning are set in three broad developmental phases as follows:

- Phase 1: from age 3
- Phase 2: from age 7
- Phase 3: from age 11

Our RSE lead communicates with all of our primary feeder schools to ensure effective progression from Phase two to Phase three and is developmentally appropriate with all our learners.

The planning, teaching, evaluating and monitoring of the school's RSE programme is undertaken by teachers and the Lead RSE in our school.

To ensure that our whole school RSE curriculum is developmentally appropriate we consider a range of factors including learners':

- age, knowledge and maturity
- additional learning needs
- social, physical, emotional and cognitive development and needs
- needs of similar ages may differ.

Consultation with learners

In order to support learners to realise the four purposes within the Curriculum for Wales, learner voice is central in developing our RSE curriculum.

To ensure our RSE curriculum meets the needs of our Learners we provide opportunities for them to comment on the school's RSE policy, schemes of work and lesson content by undertaking consultation activities with pupils from each year every two years.

We continuously consult with our learners at the end of lessons, activities and programmes in order to ensure appropriateness of our provision and that the resources and outside agencies used are relevant, developmentally appropriate, inclusive and sensitive for learners' needs. We will act upon any recommended amendments as appropriate.

RSE Whole School Schemes of Work

Our whole school RSE provision is detailed within a schemes of work document and it is available at school. This document specifies how we manage, organise and embed RSE throughout our whole school curriculum in alignment with the Progression Steps within the Curriculum for Wales and the Phases within the RSE Code. The resources used are selected for their suitability and are reviewed for their effectiveness following their use by teachers and the schools' lead RSE member of staff.

Safe learning environment

The school will ensure a safe learning environment for teachers, staff and learners by establishing and agreeing to the school's class agreements/rules. The class agreements are noted within the whole school schemes of work document.

Learners will be made aware of confidentiality matters and that any safeguarding disclosures will not be kept and will be shared in accordance with our school's safeguarding procedures.

Health and wellbeing support services for learners

Within our RSE provision, learners will be informed of appropriate health, sexual health and wellbeing support services such as confidential advice, counselling and how to access treatment when necessary.

Answering learners' questions

Learners will have opportunities to ask confidential/anonymous questions when appropriate by using an anonymous question box. We view questions as a positive sign that pupils are engaged with what is being taught and feel able to express natural curiosities about themselves, their bodies and relationships with others. Questions are answered sensitively and in a developmentally appropriate manner for learners.

Our staff are not be expected to answer all questions if they believe some to be inappropriate. They will not be expected to answer any personal questions about themselves and they will not ask learners direct personal questions that could make either party vulnerable.

Working with specialist external agencies

In order to enhance and enrich our RSE provision, the teaching will occasionally be supported by external agencies e.g. Stonewall, school nurse, health professionals, NSPCC, Hafan Cymru, Barnardos, the Police etc.

These agencies will be carefully selected and the lead RSE will check:

- They are adequately trained to speak with young people.
- They work/are registered with a reputable organisation/charity.
- Their contribution coincides with the aims and objectives of the curriculum.
- The validity of their Disclosure and Barring Service (DBS) status.
- All resources/presentations that will be used.
- They have been made aware of any additional needs that some learners may have.
- They have been made aware that a member of the school staff will be present throughout the lesson/activity/presentation.

Staff professional development

Our school recognise that Professional learning is a key requirement for high-quality RSE. The school is committed in facilitating that all teaching and associated members of staff receive appropriate RSE training in order to ensure our whole school RSE programme is effective, includes cross curricular elements, is developmentally appropriate and meets the needs of our learners.

Our school's RSE Lead will support all teaching and associated members of staff to access professional learning opportunities which will assist to develop their confidence, knowledge and skills needed for RSE.

Partnerships with parents/carers and the local community

The school recognises that parents/carers are crucial to the success of the RSE programme. Parents/carers are welcome to make arrangements to visit the school if they wish to view and discuss the materials and resources used in the RSE lessons.